# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc held at County Hall, Usk - Remote Attendance on Dydd Llun, 31ain Ionawr, 2022 at 2.00 pm**

| **Councillors in attendance** | **Officers in attendance** |
| --- | --- |
| County Councillor T.Thomas (Chair)<br>County Councillor L. Brown (Vice Chairman)<br><br>County Councillors: C.Edwards, M. Powell, J.Watkins and P. Murphy<br><br>Also in attendance: County Councillor P. Murphy, Cabinet Member for Resources | Will Mclean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc<br>Jane Rodgers, Pennaeth Gwasanaethau Plant<br>Peter Davies, Prif Swyddog, Adnoddau<br>Nikki Wellington, Rheolwr Cyllid<br>Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu<br>Tyrone Stokes, Rheolwr Cyllid<br>Jonathan Davies, Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog<br>Chesney Chick, Service Manager - Youth Offending Service |

**Apologies:** County Councillors M.Groucutt, D. Jones and M.Lane

1. **Datganiadau o Fuddiant**

   Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. **Craffu ar y Gyllideb: Craffu ar gynigion y gyllideb ar gyfer 2022/23**

   Rhoddodd yr Aelod Cabinet Phil Murphy gyflwyniad gyda Nicola Wellington. Atebodd y Cynghorydd Murphy, Will McLean, Tyrone Stokes a Jane Rodgers gwestiynau'r aelodau.
   **Her:**
   *Mae ysgolion yn parhau i dderbyn cyllid grant ar ddiwedd y flwyddyn – a all y pwyllgor hwn gael adroddiad ar yr hyn y gwariodd ysgolion y cyllid hwn arno a bydd yw effaith y gwariant hwnnw?*
   Bu swm sylweddol o gyllid grant i ysgolion mewn blynyddoedd diweddar a drwy gydol y pandemig bu ffrydiau cyllid sylweddol tebyg i gynllun 'Recriwtio, Adfer, Codi Safonau' er mwyn cefnogi dysgwyr a'u helpu i ddal lan a chau'r bwlch a allai fod wedi cynyddu yn ystod y pandemig. Gweithiwn yn agos gyda'n cydweithwyr yn y Gwasanaeth Cyflawni Addysg i ddeall effaith y gwariant hwnnw – byddai'n adroddiad da iawn i ddod ag ef i'r pwyllgor hwn, byddai.
   *Gyda balansau ysgolion yn uwch nag mewn blynyddoedd blaenorol, sut fydd Cyngor Sir Fynwy yn cadw'r fantol rhwng gwariant ysgolion a gwariant arall yr awdurdod lleol wrth symud ymlaen?*
   Wrth i ni fynd drwy'r flwyddyn mae'r awdurdod wedi wynebu pwysau sylweddol yn ein cyllideb Anghenion Dysgu Ychwanegol a fu'n anodd i ni ei reoli; yn neilltuol, gostau plant yn parhau yn y sir. Mae'n addas i ni weithio gyda'r ysgolion mewn ffordd aeddfed i ddeall beth yw'r anghenion – mae'r gwaith y bu Nicola Wellington yn arwain arno yn diwygio methodoleg dirprwyo ar gyfer cyllid anghenion ychwanegol yn enghraifft wych o hynny. Gobeithiwn weld mwy o waith fel hyn yn y dyfodol. Mae'n debyg y bydd ysgolion yn gweld cynnydd eto mewn balansau ar ddiwedd eleni, sy'n debyg o gael ei chwyddo gan grantiau ar ddiwedd y flwyddyn. Bydd gan rai ohonynt

feini prawf gwariant penodol (ac felly yn cyfrif yn yr adroddiad y gwneir cais amdano yn y cwestiwn cyntaf), tra bydd eraill yn mynd yn uniongyrchol i'r llinell waelod.

Mae'n hanfodol ein bod yn glir iawn gyda'r ysgolion pan fo balansau sylweddol wedi cronni fod ganddynt gynlluniau cadarn sy'n cynrychioli gwariant effeithlon ar eu hysgolion. Rydym yn siarad gyda'r ysgolion am sut y gallwn eu helpu i wneud hynny, gan sicrhau eu bod yn deall hyblygrwydd llawn a photensial caffael, meddwl am yr economi cylchol, ac os oes gwariant cyfalaf, eu bod yn gwneud hynny mewn ffordd wybodus sy'n diwallu ymrwymiadau am gynllunio, rheoli adeiladu ac yn y blaen. Wrth i ni symud ymlaen, mae'n debyg y bydd angen ail-fantoli'r arian y mae ysgolion yn ei ddal eu hunain a'r arian y gallwn ei fforddio'n ganolog i'w cefnogi.

*Mae'r gyllideb yn sôn am raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yng nghyswllt y Fenni a Chas-gwent. A allwch roi sylw ar y cynnydd?*

Rydym yn cyrraedd amser tyngedfennol yng nghyswllt yr ysgol newydd yn y Fenni gyda chyflwyno achos busnes llawn yn y dyfodol agos, yn ogystal â'r cais cynllunio. Ar 19 Ionawr cytunwyd cymryd y cam terfynol yn yr ymgynghoriad yn ymwneud â chau'r ddwy ysgol ac agor ysgol newydd. Daeth y cyfnod galw mewn i ben ddydd Gwener felly caiff hynny ei weithredu ar 1 Medi 2023. Fel y mae'r cynlluniau ar gyfer y Fenni yn symud ymlaen, rydym yn ymwybodol iawn o'r datblygiad rydym eisiau iddo ddigwydd yng Nghas-gwent. Rydym wedi recriwtio aelod newydd i'r tîm, Tim Bird, fel Cynghorydd Addysgol – mae'n gweithio gyda Cath Saunders (Arweinydd Prosiect 21ain Ganrif) ar Gas-gwent a'r potensial yno.

*Mae pwysau cyllideb yn parhau ac yn cynyddu. A allwn gael sicrwydd na fydd byth gwtogi yn y dull gweithredu atal ar gymryd plant i ofal?*

Gyda Gwasanaethau Plant, y pwysau yw ein galluogi i ddal i ymarfer yn yr un ffordd. Gyda'r pwysau ar y gyllideb rydym yn edrych ar gydnabod y newid yn anghenion plant, ac er i ni gael sicrwydd fod nifer y plant sy'n derbyn gofal yn gwastatau, rydym yn cael mwy o gostau uchel – angen mwy o leoliadau pwrpasol un-i-un. Mae'r pwysau £1.3m yn ehangu i 4 cyfnod: edrych ar fynd i'r afael â'r pwysau cyllideb ar gyfer y plant hynny sydd angen lleoliadau pwrpasol drud (mae'r rhain yn tueddu i fod tu allan i'r sir), sefydlogi ein gweithlu, cydnabod y pwysau y mae'r llysoedd yn ei roi arnom, a gwobrwyo'r strwythur tâl i'n gofalwyr sy'n berthnasau yn dilyn rhai achosion cyfreithiol mewn awdurdodau lleol eraill. Gallwn roi sicrwydd nad ydym yn edrych ar newid y ffordd yr ydym yn ymarfer. Ein mandad o hyd yw cymorth cynnar ac atal ym mhob rhan o'r system, a sylweddolwn mai dyna'r ffordd i ni adeiladu teuluoedd cynaliadwy a chydnerth hirdymor.

*Yng nghyswllt setliad Llywodraeth Cymru, a ydym yn cael ein neilltuo oherwydd ein bod yn Sir Fynwy neu a oes set benodol o feini prawf?*

Na, nid yw oherwydd ein bod yn Sir Fynwy. Mae mwy na hanner cant o feini prawf tebyg i'r math o dai, y math o ffyrdd sydd gennym, ardaloedd o amddifadedd ac yn y blaen. Mae'r meini prawf yma'n newid drwy'r amser. Eleni, newidiodd y fantol fel mai ni oedd yn derbyn y cyllid gorau, yn hytrach na'r gwaethaf, ond nid oes gwarant y bydd hynny'n digwydd eto. Felly, caiff y setliad ei benderfynu gan y ffordd y mae'r fformiwlâu yn symud.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Diolch i'r Aelod Cabinet a'r swyddogion. Cafodd llawer o feysydd eu hegluro ar gyfer y pwyllgor. Cawsom sicrwydd am sicrhau cydbwysedd yng nghylch ysgolion, sydd wedi cael cyllidebau uwch ond mewn cyfnod o anawsterau enfawr. Mae'n bwysig mai'r plant hynny a ddioddefodd yn

neilltuol yn ystod y pandemig yw'r rhai o gefndiroedd mwy amddifadus yn gyffredinol. Mae pwysau Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y sir yn eithaf mawr. Dylai fformiwla newydd Anghenion Dysgu Ychwanegol olygu gwell cyllido a threfniadaeth. Mae Cas-gwent yn gonsyrn mawr, yn neilltuol ar gyfer y bobl sy'n byw yno. Mae'r pwysau plant sy'n derbyn gofal bob amser yn faes o gonsyrn – mae'n rhaid diogelu'r gyllideb honno ac mae'n anos ei rhagweld na meysydd arall o wasanaethau Plant a Phobl Ifanc. Mae sylwadau'r swyddogion am y maes hwn yn galondid. Rydym yn falch i glywed nad yw Llywodraeth Cymru yn trin Sir Fynwy yn wahanol i awdurdodau eraill, ac mae'n dda gweld y caiff tâl ei drin yn ganolog.
Mae'r pwyllgor yn hapus gyda'r cynigion gyllideb a ddaethpwyd o'n blaen heddiw.

3. **<u>Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid</u>**

Cyflwynodd Chesney Chick y cyflwyniad ac ateb cwestiynau aelodau.
**Her:**
*Pa mor fuan ydych chi'n dod i wybod am ddarpar droseddwyr?*
Gwasanaeth ataliol ydyn ni. Bu symud cyn i mi ymuno â'r tîm o ddelio gyda phobl yn y ddalfa i ddelio gyda phobl yn y gymuned, mewn ffordd ataliol. Gweithiwn yn agos iawn gyda'n cydweithwyr mewn gwasanaethau plant, addysg ac asiantaethau partner arall i ddynodi'r rhai a all fod wedi cael pwyntiau sbardun – p'un ai a gawsant brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod neu fel arall – sy'n awgrymu y gallent ddod i'n sylw. Wedyn edrychwn ar wasanaethau mewn cysylltiad gyda phartneriaid tebyg i'r Gwasanaeth Ieuenctid i ddatblygu adnoddau o fewn maes neilltuol, os oes rhai problemau yn dechrau dod i'r amlwg. Os yw ar sail unigol, byddai angen i ni edrych os oes gwasanaeth mewnol a allai ddiwallu'r angen hwnnw.
Fel enghraifft, yn ystod y cyfnod clo gwelwyd cynnydd mewn trais domestig (plentyn ar brif ofalwr). Nid oedd yr wybodaeth a'r data oedd ar gael gan wasanaethau plant Sir Fynwy a Torfaen yn awgrymu fod hynny'n broblem i ni, ond fe wnaethom sylweddoli efallai nad oeddent efallai y gwir ffigurau gan nad oeddent yn cynnwys ysgolion. Fe wnaethom greu dwy swydd o fewn gwasanaethau plant a fyddai'n helpu gyda'r broses, gan helpu i adnabod achosion posibl a cheisio eu dal yn ataliol.
*A fu cynnydd mewn bwlio ar-lein a dylanwadu yn ystod y cyfnodau clo, ac a fu modd i chi wneud unrhyw beth amdano?*
Nid oedd unrhyw ddata i awgrymu y bu cynnydd ond clywsom fod potensial ar gyfer cynnydd. Ond ni ddaeth dim byd yn uniongyrchol i sylw'r Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid. Fodd bynnag, yn ystod y pandemig fe wnaethom ddefnyddio llwyfannau digidol fel Teams i gysylltu gyda'r plant yr oedden yn ymwneud â nhw, yn arbennig yn ystod yr haf: fe wnaethom roi cwisiau iddynt, er enghraifft, anfon tasgau atynt drwy'r post ac yna gysylltu â nhw i'w marcio, yna roi gwobrau ac ati. Y syniad oedd dal ati i ennyn eu diddordeb. Cawsom ein synnu ar yr ochr orau gyda'r ymateb i'r sesiynau hynny – roedd rhai yn ei chael yn haws cysylltu ar-lein nag a fyddent wedi gwneud fel arall.
*Gan fod yn wasanaeth ar y cyd gyda Thorfaen, a oes dadansoddiad o'r niferoedd ar gyfer pob ardal awdurdod lleol? A yw'r rhain wedi newid dros gyfnod?*
Oes, mae dadansoddiad y gallwn ei gyflwyno yn nes ymlaen os yw'r pwyllgor yn dymuno. Mae gwahaniaethau hirsefydlog rhwng y ddwy ardal ac nid yw hynny wedi newid yn ystod y

pandemig. Mae'n anodd rhoi rhifau penodol ar hyn o bryd ond fel arfer, er enghraifft, os oes 10 o Dorfaen byddai'r nifer o Sir Fynwy yn 5-7 mae'n debyg. Mae awgrym fod y bwlch yn cau, fodd bynnag. Mae cymhlethdodau'r achosion yn aros yr un fath ac mae'r problemau gwraidd nodweddiadol yn aros yn gyson yn y ddwy ardal.

*Mae adroddiadau i'r Pwyllgor Dethol Oedolion yn awgrymu fod pobl ifanc sydd angen cartref yn cyflwyno gydag anghenion mwy cymhleth. Nid ydynt yn troseddu o reidrwydd ond a oes unrhyw gysylltiad rhwng y Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid a thai, a pha gefnogaeth a roddir yng nghyswllt anghenion cymhleth?*

Ydi, mae'n hysbys iawn fod plant yn dod trwodd gydag anghenion mwy cymhleth. Ar gyfer pob achos y mae'r Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid yn ymwneud ag ef mae gennym Banel Ailsefydlu, sy'n edrych yn benodol ar ein strategaeth gadael, er enghraifft, yn achos plentyn a fu yn y ddalfa ac sy'n dychwelyd i'r gymuned. Yn yr un modd, mewn achos atal, ar gyfer plentyn a ddaeth i ddiwedd eu gorchymyn, byddai'r panel yn trafod yr achos i sicrhau fod y lefel iawn o gefnogaeth iddynt pan fyddant yn gadael ein darpariaeth. Mae tai ar y panel hwnnw, ynghyd â Gyrfa Cymru, Iechyd, gweithiwr cyffuriau o Engage, ac eraill i sicrhau fod y pecyn cyfredol o gefnogaeth yn y gymuned ar y lefel gywir. Mae gennym berthynas waith dda gyda Tai.

*Mae gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb am dai ond nid o reidrwydd gyfrifoldeb diogelwch neu iechyd yng nghyswllt camddefnyddio cyffuriau a phroblemau cymhleth o'r math hwn. A ydynt yn canfod problemau yng nghyswllt y gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer yr anghenion ychwanegol hynny na all landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eu darparu?*

Ydynt. O'n safbwynt ni, mae'n hanfodol ein bod drwy'r broses asesu yn adnabod anghenion creiddiol y plentyn - gall hyn yn aml gael ei guddio gan bethau eraill. Yn hanesyddol, fe allem fod wedi gweithio ar broblem cyffuriau sydd mewn gwirionedd yn broblem llesiant emosiynol/iechyd meddwl. Rydyn ni'n ceisio sicrhau y caiff hyn ei drin pan gaiff y pecyn cefnogaeth ei baratoi.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Diolch i chi am yr adroddiad hwn. Mae'r pwyllgor yn gliriach ar sut y mae Covid wedi effeithio ar y gwasanaeth – bu'n gyfnod anodd i bawb, ond yn neilltuol ar gyfer rhai pobl ifanc sydd mewn amgylchiadau anodd. Bu'n ddefnyddiol clywed am y gefnogaeth a gafodd teuluoedd yn ystod y cyfnod clo. Rydym wedi trafod atal, sy'n allweddol, gan nad ydyn eisiau i blant sy'n dod i gylch gorchwyl y wasanaeth symud ymlaen i droseddu pan fyddant yn eu harddegau ac yn oedolion ifanc. Mae'n galonogol clywed am y gefnogaeth a roddir.

4. **<u>Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf: 3 Mawrth 2022</u>**

The meeting ended at **3.30 pm**